# Mycotocsinau

Egluro peryglon Mycotocsinau a'r rheoliadau diogelwch bwyd sydd ar waith yn y Deyrnas Unedig mewn perthynas â nhw.

Mae mycotocsinau yn gr?p o gemegau naturiol sy'n cael eu cynhyrchu gan rai mathau penodol o lwydni. Maen nhw'n gallu tyfu ar amrywiaeth o gnydau a bwyd, gan gynnwys grawnfwyd, cnau, sbeisys, ffrwythau wedi'u sychu, sudd afal a choffi, a hynny mewn amodau cynnes a llaith.

O safbwynt diogelwch bwyd, mae'r mycotocsinau sy'n peri'r pryder mwyaf yn cynnwys:

- afflatocsinau (B1, B2, G1, G2 a M1),
- ocratocsin A,
- patulin
- tocsinau sy'n cael eu cynhyrchu gan lwydni Fusarium, gan gynnwys ffumonisinau (B1, B2 a B3)
- trichothecenes (yn bennaf nivalenol, deoxynivalenol, tocsin T-2 a HT-2)
- zearalenone
- alcaloidau ergot, citrinin, sterigmatocystin a thocsinau altrnaria

Gall mycotocsinau effeithio ar iechyd pobl mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys achosi canser (mae rhai yn genowenwynig), niwed i'r arennau a'r iau, aflonyddwch gastroberfeddol, anhwylderau atgenhedlu neu atal y system imiwnedd. Afflatocsinau yw'r math mwyaf niweidiol o mycotocsin. Gallant achosi canser neu broblemau gyda threulio, atgenhedlu neu'r system imiwnedd.

Mae mycotocsinau yn digwydd yn naturiol, felly does dim modd osgoi eu presenoldeb mewn bwyd yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, mae'n briodol rhoi mesurau rheoli ar waith i sicrhau bod lefel cysylltiad mycotocsinau â bwyd mor isel ag sy'n rhesymol bosibl. Mae'r mesurau rheoli hyn yn amrywio o sicrhau bod arferion da yn cael eu cynnal wrth dyfu, cynaeafu a storio bwyd, yn ogystal â sefydlu lefelau uchaf lle bo angen.

## Deddfwriaeth

Er mwyn diogelu defnyddwyr, mae rheolau a therfynau llym ar gyfer afflatocsinau, ochracsin A, patulin a thocsinau Fusarium mewn rhai bwydydd. Mae'r lefelau uchaf a ganiateir wedi'u nodi yn:

- Rheoliad yr UE 1881/2006 a gymathwyd ar gyfer Cymru a Lloegr
- Rheoliad yr UE 1881/2006 ar gyfer Gogledd Iwerddon

Mae mycotocsinau yn digwydd mewn mannau penodol oherwydd nad ydynt wedi'u dosbarthu'n gyfartal trwy'r bwyd. Er mwyn sicrhau bod y samplau profi yn gynrychioliadol o'r swp cyfan o fwyd mae darpariaethau ar gyfer samplu a dadansoddi o ran rheolaethau swyddogol lefelau uchaf ar gyfer mycotocsinau ar waith. Amlinellir hyn yn:

- Rheoliad yr UE 401/2006 a gymathwyd ar gyfer Cymru a Lloegr
- Rheoliad yr UE 401/2006 ar gyfer Gogledd Iwerddon

Mae'r darpariaethau ar gyfer samplu a dadansoddi yn berthnasol i gyrff gorfodi yn unig. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd porthladdoedd a dadansoddwyr cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n bwysig  i weithredwyr busnesau bwyd fod yn ymwybodol o'r darpariaethau hyn wrth gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy.

Rydym wedi creu cyngor samplu ar hyn i awdurdodau gorfodi a gweithredwyr busnesau bwyd (Saesneg yn unig).

### England, Northern Ireland and Wales

PDF
Gweld Mycotoxin sampling guidance  as PDF(Open in a new window) (795.24 KB)

Os yw gweithredwr busnes bwyd yn dymuno dadansoddi samplau ar gyfer mycotocsinau yn y Deyrnas Unedig (DU), argymhellir defnyddio labordy achredig ar gyfer dadansoddi mycotocsinau. Mae rhagor o wybodaeth am labordai achredig ar gael ar wefan Gwasanaethau Achredu'r Deyrnas Unedig.

## Amodau arbennig ar fewnforion

Mae'r lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer mycotocsinau yn berthnasol i'r bwydydd penodedig p'un a ydynt yn cael eu mewnforio neu eu cynhyrchu'n ddomestig. Caiff defnyddwyr eu diogelu gan amodau mewnforio arbennig ar gyfer rhai bwydydd o drydydd gwledydd penodol eraill lle mae'r risg o halogiad gan afflatocsinau yn uwch. Felly, bydd y bwydydd hyn yn destun gwiriadau ychwanegol a bydd yn rhaid iddynt fod â dogfennaeth benodol sy'n cadarnhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau.

Mae hyn yn cynnwys tystysgrif dadansoddi a thystysgrif iechyd gan awdurdod cymwys y wlad tarddiad.

### Codau ymarfer –  Fusarium ac Ochratocsin A

Rydym wedi datblygu dau gôd ymarfer penodol ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon er mwyn lleihau Fusarium a mycotocsinau ochratocsin A mewn grawnfwydydd. Fe gyhoeddon ni ganllaw i grynhoi'r codau ymarfer hyn ar gyfer ffermwyr grawnfwyd.

Mae'r codau ymarfer hyn yn y DU yn seiliedig ar set o egwyddorion cyffredinol er mwyn lleihau'r nifer o mycotocsinau a geir mewn grawnfwydydd.

Pwysig

### Cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE yng nghanllawiau'r ASB

Nid yw deddfwriaeth sy'n uniongyrchol gymwys i'r UE bellach yn gymwys ym Mhrydain Fawr. Daeth deddfwriaeth yr UE a ddargadwyd pan ymadawodd y DU â'r UE yn gyfraith a gymathwyd ar 1 Ionawr 2024, yn unol â'r hyn a gyhoeddwyd ar legislation.gov.uk. Dylai cyfeiriadau at unrhyw ddeddfwriaeth yng nghanllawiau'r ASB sydd ag 'UE' neu 'CE' yn y teitl (er enghraifft, Rheoliad (CE) 178/2002) gael eu hystyried yn gyfraith a gymathwyd lle bo hynny'n gymwys i Brydain Fawr. Bellach, dylid ystyried cyfeiriadau at 'Gyfraith yr UE a Ddargedwir' neu 'REUL' fel cyfeiriadau at gyfraith a gymathwyd.

Yn achos busnesau sy'n symud nwyddau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, mae gwybodaeth am Fframwaith Windsor ar gael ar GOV.UK.
Mabwysiadwyd Fframwaith Windsor gan y DU a'r UE ar 24 Mawrth 2023. Mae'r Fframwaith yn darparu set unigryw o drefniadau i gefnogi llif cynhyrchion manwerthu bwyd-amaeth o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, gan ganiatáu i safonau Prydain Fawr o ran iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd, marchnata a deunyddiau organig fod yn gymwys i nwyddau manwerthu wedi'u pecynnu ymlaen llaw a gaiff eu symud drwy Gynllun Symud Nwyddau Manwerthu Gogledd Iwerddon (NIRMS).